

# YR HYN GALL ARGLWYDDIAETH DUW EI WNEUD DROSOM

## *Nodyn i'r siaradwr:*

Daeth yn amlwg fod angen newidiadau. Bydd arglwyddiaeth Duw yn codi dyn o'i sefyllfa enbyd bresennol. Caiff y rhai sy'n cefnogi arglwyddiaeth Duw wobwr wych

### **MAE POBL YN DYMUNO NEWID, OND 'WNÂN' NHW NEWID I FFORDD DUW?** (4 mun.)

Mae llawer o bobl yn anhapus oherwydd anghyfiawnder, trosedd, rhyfeloedd, casineb, a salwch

Maen' nhw'n gofyn, "Pam nad ydi Duw yn rhoi terfyn ar y pethau hyn 'nawr?" (*w89 10/15 21-2*)

Byddai rhoi terfyn ar y pethau hyn yn golygu newid cyfundrefnau, sefydliadau, ac arferion; 'fyddai hyn yn cael ei groesawu?

Fe welwn lawer o wrthwynebiad i'r rhai sy'n ceisio sicrhau newid er lles pobl (*g88 5/8 5-8*)

Mae 'na wrthdaro cyson rhwng ecolegwyr a phenaethiaid diwydiant, rhwng y rhai sy'n dymuno achub yr amgylchedd a'r rhai sydd eisiau "cynnydd"

I sicrhau gwir hapusrwydd a chydweithrediad, mae'n rhaid i bobl fod yn fodlon newid i wneud yr hyn sy'n iawn

Mae ffordd Duw yn darparu cyfarwyddyd fel gall bodau dynol arfer ewylllys rydd yn ddoeth (Rhuf 2:4)

Nid yw Jehofah am aros i ddynion ofyn iddo fod yn Benllywydd arnyn' nhw (Salm 2:1-6; *w79 1/15 6*)

Mae e'n gweithredu rhaglen fydd yn cyrraedd ei hanterth pan fydd ei hawl i deyrnasu yn cael ei gydnabod dros yr holl ddaear

### **ARGLWYDDIAETH DUW, NID DYN, SYDD ORAU INNI** (4 mun.)

'Chafodd dyn mo'i greu i arglwyddiaethu ar ddynion eraill (Darllen Pregethwr 8:9; Jeremeia 10:23)

Mae rheoli dyn bob amser yn arwain at orthrwm; oni welsoch mai gwir hynny? (*gm 187-8*)

Mae doethineb Duw a'i wybodaeth o'i greadigaeth yn ei wneud e'n gymwys i wybod yn union beth yw anghenion y ddynoliaeth (Eseia 40:12-14)

Mae e'n gyfarwydd â phob manylyn yn ein cyrff a'n personoliaeth (Darllen Salm 139:3, 4, 16)

Os Ef yw'r Penllywydd gorau ar gyfer dyn, pam mae Duw wedi caniatáu i ddyn reoli?

Nid ydi Duw heb ei gonsŷrn, ond mae e'n bwriadu gweithredu yr union amser fydd o les i'r mwyafrif o bobl sy'n byw 'nawr a'r rhai sydd wedi byw yn y gorffennol (2Pedr 3:9; *w80 3/1 4*)

### **PAM MAE DUW WEDI CANIATÁU DIODDEFAINT AR Y DDAEAR?** (8 mun.)

'Roedd y dyn gwreiddiol, y tarddodd yr hil ddynol ohono, yn fab i Dduw, yn berffaith, ac yn barod iawn i gydnabod arglwyddiaeth Duw (*rs 371-2; it-2 160 ¶1*)

'Roedd gan Adda nodweddion moesol perffaith a'r ddawn i ddatblygu adnabyddiaeth ddyfnach o Jehofah a chariad ato a pherthynas agosach ag e (*it-2 604 ¶2, 3*)

Yn sicr 'roedd Duw yn darparu cyfarwyddiadau ar gyfer Adda yn gyson (*w89 8/1 11-16*)

Gan y byddai Adda a'i epil yn gweithio i ddarostwng y ddaear, byddai'n rhaid iddo barhau i garu'i Greawdwr a derbyn cyfarwyddiadau gan Dduw

'Roedd popeth oedd yn angenrheidiol i fwynhau bywyd gan Adda ac Efa (*w89 8/1 19-20*)

Petai ond o ran diolchgarwch syml, iawn oedd iddynt gydnabod eu dyled i roi teyrngarwch ac ufudd-dod i Dduw Byddai unrhyw bechu gan fodau dynol perffaith, ag oedd Adda ac Efa, yn fwriadol—gweithred wrthryfelgar yn erbyn Duw (*it-1 45 ¶7*)

Byddai person perffaith oedd yn pechu yn annibynadwy, yn un na fedrid ymddiried ynddo (Lc 16:10)

Cynrychioli arglwyddiaeth brenhinol Jehofah, neu symbol o hynny, oedd 'pren gwybodaeth da a drwg,' yn nodi terfyn hawl neu awdurdod dyn (Gen 2:17; *it-2 1011 ¶1, 2; 1124 ¶1, 2*)

Byddai cyfranogi o'r goeden yn golygu fod person yn dewis peidio â bod yn ddarostyngedig i Dduw

Wrth i Adda weithredu fel hyn cododd y cwestiwn: 'Fyddai unrhyw un yn nheulu Duw yn aros yn deyrngar dan bob pwysau a themtasiynau?

'Roedd bwyta o'r goeden yn waeth nag anuffuddhau; 'roedd e'n her o flaen yr holl fydsawd i iawnder awdurdod brenhinol Duw neu ei arglwyddiaeth (*it-2 1010 ¶6*)

Mae llyfr Job yn disgrifio'r her, neu'r pwnc dadl, a godwyd gan Satan (Job 1:9-11; 2:4; *it-2 1011 ¶3*)

Gwasanaethodd Job ar ochr Duw i'r dadl ac nid oedd ar ei golled wrth aros yn deyrngar i Dduw

### **TRWY BECHU, ACHOSODD ADDA LOES I'R HOLL HIL DDYNOL** (7 mun.)

I gychwyn gwrthryfel yn erbyn Duw aeth Satan yn gyntaf at Efa (Darllen Genesis 3:1-6; 1 Timotheus 2:13, 14) (*w86 8/1 11-12*)

Cafodd Efa ei thwylo, gan gredu y byddai'r hyn 'roedd y sarff yn ei honni yn dod yn wir

Dangosodd Adda nad oedd e mwyach yn caru Duw'n ddigonol nac yn gwerthfawrogi'r hyn 'roedd Jehofah wedi'i roi iddo (Gen 3:12)

Collodd ffydd ac yn fwriadol fe wrthryfelodd

"Y dydd" y pechodd, bu farw Adda yn ysbrydol; hefyd dechreuodd cnawd ei gorff ddirywio (Rhuf 3:23; 5:12, 14)

Mae'r holl hil ddynol yn disgyn o Adda, felly mae pawb yn amherffaith, yn bechaduriaid sy'n marw; mae pawb fel unigolion wedi pechu hefyd

Gosododd Duw Adda ac Efa y tu allan i'r ardd, ond fe ganiataodd iddyn' nhw gael plant

Mae rhai o'r plant hyn wedi profi'n ffyddlon i Dduw o dan brawf

Pan fydd pwnc dadl mawr awdurdod brenhinol Duw yn cael ei ddatrys yn derfynol, ni chaniateir i ddrygioni a dioddefaint darfu ar y bydysawd fyth eto (*ce* 193-6)

Ond, sut gallai Duw gynorthwyo'r hil ddynol o'i chyflwr trist, angeuol?

#### **DUW YN DOD I ACHUB YR HIL DDYNOL** (8 mun.)

'Roedd angen help ar yr hil ddynol, ond 'fedrai Duw ddim dweud yn syml, 'Rwy'n maddau'ch pechodau'

'Fedrai e ddim yn hawdd anwybyddu pechod, gan y byddai hynny'n anghyfiawn

Er mwyn i Dduw helpu'r hil ddynol, daeth problem gyfreithiol yn amlwg—sut i faddau i bechaduriaid (*w89* 3/1 21-2)

'Roedd dyn yn ddiymadferth, wedi'i werthu'n gaethwas i bechod (Salm 49:7; Rhuf 7:14)

'Fedrai Duw ddim trafod telerau'n uniongyrchol gyda phobl gondemnedig, bechadurus

'Roedd yn rhaid iddo weithredu mewn cyfiawnder gan gynorthwyo'r hil ddynol drwy fod yn drugarog (Rhuf 3:23-26)

Drwy drefniant caredig a chyfreithiol Duw, darparodd ei Fab gyfle i'r hil ddynol ennill bywyd, a'r un pryd dorri'r ddadl ynglŷn â phwnc iawnder arglwyddiaeth Duw (*Lmn* 18-20)

Cafodd Iesu ei eni'n fod dynol perffaith a bu fyw felly (Darllen Hebraid 7:26)

Ni lwyddodd Satan o gwbl i gael Iesu i bechu o ran meddwl, gair, na gweithred

Wrth i Grist roi ei fywyd yn aberth darparwyd sail i ddynion ffyddlon gael eu cyhoeddi'n gyfiawn (*it-1* 604-5)

Oddi ar ei atgyfodiad mae Iesu'n gwasanaethu'n Lladmerydd ar ran gweision Duw (Darllen 1 Ioan 2:1, 2)

Daw Iesu yn "Dad bythol" drwy gyfrwng ei aberth pridwerthol (Eseia 9:6; *ws* 163-6)

Mae'n 'cael plant' am fod Duw yn derbyn ei aberth pridwerthol yn offrwm dros bechod

Gall pawb sy'n glynu wrth bridwerth Iesu mewn ffydd ddod yn blant iddo

#### **PRIDWERTH CRIST YN GOESGYN PECHOD A'I HOLL EFFEITHIAU** (4 mun.)

Trwy gymhwyso gwerth yr aberth pridwerthol, bydd pawb sy'n dymuno hynny yn medru ennill perffeithrwydd a bywyd tragwyddol (In 3:17-21, 36)

Y rhai fydd yn methu â chael bywyd fydd y rhai sy'n gwrthod teyrnasu Jehofah a'i gyfiawnder (Dat 20:7-9)

Cyflawnheir enw ac arglwyddiaeth Duw, gan gyflawni'r disgrifiad yn Salm 150 (Rhowch y sylwedd)

Ar ddiwedd mil blynnyddoedd llywodraethu Teyrnas Crist, mae e'n traddodi'r Deyrnas i'w Dad, ynghyd â'r hil ddynol adferedig

Yna bydd yr hil ddynol yn feibion Duw, fel Adda yn Eden, i'w profi yn y prawf terfynol (1Cor 15:24; *it-2* 170)

#### **GALLWCH FOD YN HYDERUS Y DERBYNIWCH WOBR** (10 mun.)

Mae bywyd—bywyd tragwyddol—yn rhodd gan Dduw

'Fedrwn ni ddim ennill bywyd trwy ein gweithredoedd ein hunain, gan nad ydi'n gweithredoedd ni'n gyfiawn (*su* 98-9)

Gwobr ydi bywyd i'r rhai sy'n mynegi ffydd yng Nghrist, Brenin Duw, a bod yn ufudd iddo

Dylem gael yn nod ennill cyfeillgarwch Duw

Pam 'rydych chi'n cael y fraint o glywed am y pethau hyn a'u deall nhw tra na chaiff miliynau eraill?

Mae Duw yn edrych i mewn i'r galon ac yn 'nabod unrhyw un sy'n ei geisio'n ddiffuant

Mae'n tynnu person ato pan mae'n gweld fod amgylchiadau'n iawn (Adroddwch gynnwys Actau 8:25-36)

Mae gan bawb y mae Duw wedi edrych arnyn' nhw'n ffafriol bwrpas mewn bywyd a rhaid iddyn' nhw beidio â bod yn esgeulus (Darllen 2 Corinthiaid 6:1, 2)

Byddai anwybyddu amcan dysgu'r gwirionedd yn arwain at gollir wobr

Wedi i berson ddysgu'r gwirionedd a bod yn llwyr argyhoeddedig ynglŷn â'i le priodol yn arfaeth Duw, a'i arglwyddiaeth, mae e'n cyflawni un o ofynion Duw trwy gael ei fedyddio â dŵr (*w82* 2/15 28-30)

Fe ddylai wneud y penderfyniad hwn drosto'i hun

Dylai person gydnabod mai dim ond plentyn ysbrydol ydi e amser ei fedyddio ac y dylai barhau i astudio ac ymdrechu'n barhaol i gyrraedd aeddfedrwydd (1Cor 14:20)

Nid bod yn hunanol ydi edrych ymlaen at y wobr oherwydd mae Jehofah yn gwerthfawrogi'r rhai sy'n ei geisio'n ddiffuant, ac ef yw eu Gwobrwywr (Col 3:24; Heb 11:6)

Fe ddylem ni werthfawrogi'r cyfle gwych o gael gwasanaethu Duw 'nawr (Mth 24:14)

'Rydym ni mewn sefyllfa i gefnogi awdurdod brenhinol Duw a chyhoeddi'r Deyrnas er gwaethaf gwrthwynebiad

Fe allem ni hefyd gael cyfle i wasanaethu'n rhan o 'sylfaen' y "ddaeaf newydd" (Eseia 51:16; 65:17)

'Dyw derbyn arglwyddiaeth Duw a chael ein bendithio'n garedig ganddo i weld Ei fwriadau ddim yn cyflawnhau inni ymddwyn yn 'rhy gyfiawn' (Preg 7:16; Mth 7:1, 2)

Fe ddylai'r rhai sy'n hapus gadw uniondeb bob amser helpu eraill, gan edrych ymlaen at lawenydd byw dan arglwyddiaeth Duw, fydd yn darparu pob peth sydd ei angen arnom ni (Phil 4:19)

(Glynwch yn glôs wrth y deunydd a amlinellwyd, a chadw at yr amser a nodwyd ar gyfer pob adran. 'Does dim angen darllen pob testun a grybwyllir)